Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 08

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion - 7 Ebrill 2025**

**Parc Gwepra**

---

**Aelodau** – Julian Pellatt, Huw Morgan, Alan Neale, Marjorie Thomson, John Holiday, Jeff Shone, Miranda Dechazal, Ed Swan.

**Arsylwyr -** Hannah Arndt.

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Natalie Davies, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Jon Hill, Stuart Jones.

**Ymddiheuriadau** – Jonathan Hulson, Shirley Fermor, Ian Hughes.

**1/ Croeso -**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i 8fed cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

Croesawodd JP yr aelodau newydd MD a ES

**2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr fel y maent wedi'u hysgrifennu.

**a.** Materion yn Codi

Nododd JP nad oes yna gynrychiolydd o hyd o Gymdeithas Ceffylau Prydain.

Dywedodd TW ein bod wedi ysgrifennu i weld a oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn dod ymlaen ond mae gennym ni rywun i roi cyngor o Dde Cymru.

Dywedodd MT nad oes gennym ni unrhyw un gydag anableddau ar y fforwm. Dywedodd JH ei fod yn cynrychioli elusen o Gaer sy'n helpu pobl sy'n colli eu golwg.

**3/ Grant Gwella Mynediad**

Rhoddodd DC drosolwg o'r gwaith mae'r tîm wedi ei wneud ac amlygodd y meini prawf ar gyfer cyllid 2025/26. Dywedodd os oedd gan yr aelodau unrhyw syniadau ar

gyfer y defnydd o'r arian grant y byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed hynny, felly rhowch wybod i'r tîm.

Cyfeiriodd JH at fater mynediad i feicwyr ac fe fyddai'n hoffi gweld llwybrau di draffig yn arbennig o Fwcle i Ewlo ac o Ewlo i'r Wyddgrug.

Dywedodd TW y byddai Gwasanaethau Stryd yn ymdrin â mater teithio llesol. Fe allwn ni yn sicr edrych ar gyfleoedd.

Dywedodd JH ei fod eisiau i bobl ddefnyddio teithio llesol i Lannau Dyfrdwy ond mae angen mwy o gyfleusterau yno.

Gofynnodd JP a fyddai'n bosibl i wneud astudiaeth ar fynediad i feicwyr ar y materion a godwyd gan JH. Dywedodd JH fod yna astudiaeth eisoes wedi ei chwblhau. Dywedodd JP y byddai'n ddefnyddiol i gael y ddogfen honno.

Nododd TW y byddai'n ddefnyddiol pe byddai rhywun o'r tîm teithio llesol yn rhoi cyflwyniad gyda'r cynllun presennol.

**Cam Gweithredu:** Gwahodd Gwasanaethau Stryd i gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Deithio Llesol a chyfleoedd o ran cysylltedd.

**4/ Prosiect Hynet**

Rhoddodd SJ gyflwyniad a bydd copi yn cael ei anfon gyda'r cofnodion.

Gofynnodd JH beth yw'r terfynau amser ar gyfer prosiect Hynet.

Dywedodd SJ eu bod yn gobeithio y bydd penderfyniad yn 2026.

Gofynnodd MT os ydych chi'n mynd ar deithiau cerdded cylchol, sut ydych chi'n mynd i wybod os yw'r llwybrau wedi eu hatal.

Dywedodd SJ y bydd yna rannau yn cael eu cau dros dro ond fe fydd yna bythefnos o rybudd cyn hynny. Bydd y contractwr yn cyflwyno unrhyw achosion o gau ymlaen llaw. Nid oes yna angen i roi dargyfeiriadau mewn grym, fodd bynnag rydym yn annog datblygwyr i roi dargyfeiriadau mewn grym ar lwybrau poblogaidd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth.

Gofynnodd JP pan fyddai manylion yn cael eu cyflwyno a allai'r manylion fod ar gael i'r fforwm.

Dywedodd SJ fod yna ddargyfeiriad parhaol ar safle Hanson yn Padeswood gan mai dyma lle bydd y gwaith newydd yn cael ei leoli.

Gofynnodd JS a fydd yn effeithio ar yr hen lein reilffordd.

Dywedodd SJ y bydd y llwybr newydd yn rhedeg ar hyd yr hen lein reilffordd.

Gofynnodd JS a yw'r gwaith yn ennill unrhyw brosiectau ar gyfer lonydd heb draffig.

Ydi, meddai SJ, mae lôn Glannau Dyfrdwy wedi ei chofnodi fel llwybr troed yn unig ond yn cael ei defnyddio gan gerbydau. Dylai fod yna fudd cymunedol i bob ardal sy'n cael ei heffeithio. Rydym yn gwthio am unrhyw beth a allai fod yn welliant.

Dywedodd JP y bydd hyn yn arwain at darfu ond rydym angen i SJ a'r tîm roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni.

**Cam gweithredu:** SJ i sicrhau fod y fforwm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

5/ **Cyfuno Mapiau**

Rhoddodd ND drosolwg o'r broses i aelodau a dywedodd er nad oes rhaid i ni yn gyfreithiol wneud ymgynghoriad 6 mis mae'n credu y dylem ni gael ymgynghoriad o ryw fath. Awgrymodd sesiynau agored i weld beth yw barn aelodau a chael mynediad i gerddwyr.

Nododd JP fod angen i ni sicrhau yr ymgynghorir â phartïon â chysylltiad a bod angen atgoffa pawb fod y map diffiniol a'r datganiad yn ddogfen gyfreithiol ac yn ddarn pwysig iawn o waith.

Dywedodd ES y byddai ein haelodau yn hoffi gweld y map.

Dywedodd SJ y gall unrhyw un ddod i mewn a gweld y mapiau, dim ond y broses derfynol yw hon sy'n cyflwyno'r holl newidiadau yn y 45 mlynedd diwethaf.

Dywedodd ND y bydd yna anghysonderau o hyd ar y mapiau newydd a bydd angen i ni wneud gorchymyn i'w newid.

Dywedodd SJ ein bod am ddechrau defnyddio llinell gadarn yn hytrach na llinell doredig gan fod hyn yn achosi problemau ar yr hen fapiau.

Gofynnodd JS a allai cynghorau cymuned lleol ddod yn rhan o'r broses.

Dywedodd JP y byddai'n syniad i lunio cynllun ymgynghori ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda'r bobl y dylem ymgynghori â nhw ac yna cael sylwadau'r aelodau. Mae'n rhaid i'r broses fod yn un a gaiff ei rheoli.

Dywedodd MT rwy'n credu y bydd yn rhaid i chi gael ardaloedd neu ei gael mewn man canolog.

Gofynnodd HM a ydych chi yn mynd i ddatrys gorchmynion ar y rhestr o anghysonderau yn rhagweithiol.

Dywedodd SJ y bydd ar restr o flaenoriaethau.

Dywedodd ND y bydd yn fater proses wrth broses.

**Cam Gweithredu** – Y swyddogion i ymgysylltu â'r aelodau drwy gydol y broses.

**6/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth mynediad**

Dywedodd TW fod CSFf nawr wedi cytuno ar gyllideb ar gyfer 2025/26 ac nad oes yna unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb Hawliau Tramwy Cyhoeddus a dim toriadau o ran nifer y staff.

**7/ Unrhyw Fater Arall**

Rhoddodd TW drosolwg cryno o'r gwaith i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd a dywedodd hyd nes y bydd yna ragor o wybodaeth ar gyllid, llywodraethu a chynllunio, na all Sir y Fflint gefnogi sefydlu parc cenedlaethol newydd. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddarparu ychydig o fanylion ar y cwestiynau a godwyd drwy'r ymgynghoriad diweddar. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i wneud argymhellion i'w bwrdd yn yr haf.

**Cam gweithredu:** Bydd TW yn gwahodd un o dîm y parc cenedlaethol i'r cyfarfod nesaf er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Eitemau a awgrymir ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol:

Byddai HW yn hoffi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddargyfeiriadau drwy fuarthau fferm.

Byddai MD yn hoffi ystadegau ar faint o bobl sy'n defnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

**Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 08**

Bydd y cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ar y dyddiadau hyn -

**8 Gorffennaf 2025 - Rhydymwyn**

13 Hydref 2025

19 Ionawr 2026